Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru

21 Mehefin 2017

Annwyl Mark,

**YMCHWILIAD I'R AMCANGYFRIFON ARIANNOL SY'N CYD-FYND Â DEDDFWRIAETH:**

Byddwch yn ymwybodol bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dod i gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Mehefin i drafod yr amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth. Wrth ymateb i'r cwestiynau gan y Pwyllgor, cyfeiriodd Andrew Hobden at ganllawiau diwygiedig ar gyfer paratoi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sydd i fod i gael eu cyhoeddi cyn hir. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am gael gweld y canllawiau diwygiedig i'w hystyried fel rhan o'i ymchwiliad. Sylweddolaf nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi eto, ond os gallwch rannu'r fersiwn ddiweddaraf o'r canllawiau â ni yn gyfrinachol, byddent at ddefnydd mewnol yn unig, ac ni chaent eu rhannu y tu allan i'r Pwyllgor.

Yn ogystal, dywedodd Jonathan Price fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynnwys gofyniad i gynnal adolygiadau ar ôl gweithredu o ddeddfwriaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu â'r Pwyllgor unrhyw adolygiadau, gan gynnwys y goblygiadau ariannol, a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Deddfau dan ystyriaeth fel rhan o'r ymchwiliad hwn – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Deddf Tai (Cymru) 2014; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Deddf Cymwysterau Cymru 2015.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 10 Gorffennaf er mwyn iddo drafod y wybodaeth mewn modd amserol cyn cwblhau ei waith casglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn.

Yn gywir



Simon Thomas
**Cadeirydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565